# Cynllunio Gwasanaethau Cataractau'r Dyfodol yn Ne Ddwyrain Cymru
# Dogfen Briffio

## Cyflwyniad

Cynhyrchwyd y ddogfen hon er mwyn ddarparu gwybodaeth am wasanaethau cataractau i gleifion ar draws Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro a Chwm Taf Morgannwg (ac ar gyfer y rheini yn Ne Powys sy'n glaf trawsffiniol). Mae'r ddogfen yn sôn am broblemau y mae gwasanaethau cataractau wedi'u wynebu ar draws y byrddau iechyd a sut y gellid darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb yng ngofal y llygad yn cael cyfle i ddeall yr opsiynau ar gyfer y dyfodol ac yn cael cyfle i roi eu barn i ni.

## Cefndir

Mae gan fyrddau iechyd gyfrifoldeb i ddarparu'r holl wasanaethau iechyd i'w poblogaeth gan gynnwys gwasanaethau cataract adfer golwg. Er bod yn rhaid i fyrddau iechyd ddarparu'r gwasanaethau hyn, nid oes angen iddynt, o angenrheidrwydd, gael eu darparu o fewn ardal ffiniau'r bwrdd iechyd, ac mae llawer o wasanaethau bellach yn cael eu darparu'n rhanbarthol e.e. rhai meysydd o ran gofal arbenigol neu os oes manteision sylweddol yn deillio o gyfuno gwasanaethau sy'n sicrhau y gall mwy o gleifion gael eu trin nag a fyddai fel arall.

Felly mae Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf Morgannwg, a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi cytuno i gydweithio i adolygu opsiynau ynghylch y manteision posibl i gleifion a staff drwy gyfuno ein hadnoddau i gynyddu nifer y llawdriniaethau cataract a wneir ac i leihau amseroedd aros cleifion.

Mae trefniadau dros dro wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2023 ar gyfer rhai cleifion o Fyrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chwm Taf Morgannwg. Mae'r trefniadau yma wedi eu galluogi i gael llawdriniaeth cataractau gan ddefnyddio capasiti ychwanegol yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd. Yn gynnar yn 2024, bydd rhywfaint o gapasiti ychwanegol hefyd yn Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni. Bydd hyn yn golygu y bydd cleifion Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf Morgannwg a De Powys yn cael llawdriniaethau cataract yn gynt.

## Beth yw Gwasanaethau Cataracts?

Darperir gwasanaethau Cataract gan fyrddau iechyd er mwyn trin cleifion sydd â chataractau, sef pan fydd y lens yn y llygad yn mynd yn gymylog a phan fydd y golwg yn cael ei effeithio. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys asesiad i wirio'r llygad a gweld a yw'r claf yn addas ar gyfer llawdriniaeth, yn ogystal â'r llawdriniaeth ei hun ar y llygad.

## Pam ein bod yn siarad am Wasanaethau Cataractau?

Rydym yn sôn am wasanaethau cataract oherwydd bod nifer fawr o gleifion yn aros am lawdriniaeth cataract erbyn hyn. Mae nifer y cleifion sydd angen y gwasanaeth yn fwy na nifer y cleifion y gall y gwasanaeth eu trin, ac mae'r rhestrau aros wedi bod yn mynd yn hirach. Wrth i gleifion aros yn hirach mae eu golwg yn gwaethygu ac maent yn fwy tebygol o gael niwed tra byddant yn aros.

## Pwy sy'n ymwneud â'r rhaglen hon?

Mae Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn rhan o'r rhaglen hon. Mae'r byrddau iechyd wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd i gynyddu gwasanaethau cataractau a thrwy hynny leihau amseroedd aros ar gyfer eu cleifion.

## Pwy sydd angen Gwasanaethau Cataractau?

Gall pob claf sydd â chataractau elwa o'r gwasanaeth. Mae'r rhan fwyaf o gleifion (ond nid pob un) yn tueddu i fod dros 60 oed, ac mae'r un faint o ddynion a merched yn cael eu heffeithio.

## Sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar hyn o bryd?

Yn gyffredinol, mae pob bwrdd iechyd yn darparu gwasanaethau ar gyfer eu cleifion eu hunain. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, cynhelir asesiadau cataract a llawdriniaethau yn Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd ac yn Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, caiff y rhain eu gwneud yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, caiff y rhain eu gwneud yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant.

## Sut mae gwasanaethau'n perfformio?

Gall gwasanaethau cataract ar draws y byrddau iechyd drin tua 8,500 o gleifion y flwyddyn. Mae ôl-groniad o tua 18,000 o gleifion yn aros am wasanaethau cataractau a bob blwyddyn mae 10,500 o gleifion yn cael eu hychwanegu at y rhestr aros. Mae llawer o gleifion yn aros dros flwyddyn am wasanaethau cataractau, ac mae rhai yn aros hyd at ddwy flynedd ar

hyn o bryd. Mae pob un o’r byrddau iechyd yn cytuno bod hyn yn rhy hir a bod angen mynd i’r afael â’r broblem

## Problemau Diweddar sy'n effeithio ar y gwasanaeth

### Amseroedd aros cleifion a niwed

Mae cleifion yn aros dros flwyddyn am wasanaethau cataractau yn dilyn atgyfeiriad gan eu hoptegydd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae golwg claf yn dirywio, a gall hyn arwain at risg uwch o gwympo neu ddamweiniau eraill a chynyddu ynysigrwydd cymdeithasol oherwydd gall gadael cartref fod yn anoddach. Mae cleifion yn cael anhawster darllen llyfrau, gwylio'r teledu, defnyddio ffôn symudol, cael mynediad at y rhyngrwyd neu gymryd rhan mewn hobïau sy’n gofyn am fanylder megis crefftau. Wrth i olwg cleifion waethygu, caiff hyn fwy o effaith ar ansawdd eu bywyd, a chollir eu annibyniaeth gan fod llawer o gleifion yn dibynnu mwy ar deulu a ffrindiau ar gyfer tasgau hunanofal fel coginio, glanhau a siopa.

### Galw

Bob blwyddyn ar draws y byrddau iechyd bydd tua 10,500 o bobl yn cael eu cyfeirio at arbenigwr llygaid (offthalmolegydd) am lawdriniaeth cataract ac mae’r nifer hwn wedi bod yn cynyddu ers pandemig Covid19 yn 2020.

Oherwydd yr ôl-groniadau a grëwyd gan y pandemig, ar hyn o bryd mae tua 18,000 o bobl ar draws y byrddau iechyd ar restrau aros am asesiad neu lawdriniaeth.

Mae nifer y cleifion sy'n cael asesiad a llawdriniaeth ar gyfer cataractau bellach yn ôl i lefelau a welwyd cyn y pandemig a gellir trin tua 8,500 o gleifion y flwyddyn. Mae'r ôl-groniad a'r galw cynyddol am y gwasanaeth wedi arwain y byrddau iechyd i edrych ar wahanol ddulliau ac opsiynau ar gyfer llawdriniaeth cataractau.

### Gweithlu

Ar draws y byrddau iechyd a’r DU ehangach mae swyddi gwag ar gyfer staff Meddygol, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ar bob lefel. Mae oedran cyfartalog y gweithlu presennol yn cynyddu, ac mae llawer o staff profiadol yn nesáu at oedran ymddeol. Mae cronfa gyfyngedig iawn o staff hyfforddedig, ac mae’n dod yn anodd recriwtio a chadw digon o staff sydd â’r profiad a’r arbenigedd gofynnol i gefnogi modelau gweithlu traddodiadol

### Llety a gofod

Ar draws y byrddau iechyd, mae gofod i gynnal asesiadau cataract a llawdriniaeth yn brin. Mae angen i glinigau asesu offthalmoleg a theatrau ddarparu lle ar gyfer pob math o wasanaethau gofal llygaid gan gynnwys

achosion brys a'r rhai sy'n trin dallineb diwrthdro. Mae'r gofod a'r chyfleusterau clinigol addas sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y tri bwrdd iechyd yn annigonol i ymdopi â'r galw. Mae rhywfaint o 'ddiffyg cyfatebiaeth' hefyd ar draws y byrddau iechyd o ran y gweithlu sydd ar gael a'r lle sydd ar gael (er enghraifft, mae gan un bwrdd iechyd ddigon o staff ond dim digon o le, tra bod un arall yn wynebu sefyllfa gwbl wahanol).

### Capasiti ac effeithlonrwydd

Mae llawdriniaeth cataract yn lawdriniaeth gyffredinol y mae pob llawfeddyg offthalmoleg yn ei defnyddio ynghyd â'u llawdriniaeth arbenigol. Mae gan rai arbenigwyr restr o lawdriniaethau yn y bore neu'r prynhawn, a dim ond llawdriniaethau cataractau y maent yn eu gwneud. Mae eraill yn eu hychwanegu at restr theatr fwy cyffredinol sy'n cynnwys triniaethau eraill (gan nad oes digon o gapasiti ar gyfer rhestrau cataractau penodedig). Mae arfer gorau yn dangos y gellir gwneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon trwy gyflawni **rhestrau cataract yn unig** yn amlach a thrwy symleiddio'r prosesau asesu a llawdriniaeth. Mae awydd i ddilyn yr arfer gorau hwn, ond byddai angen mwy o le a staff i wneud hyn.

### Cynaladwyedd a mynediad cyfartal

O ganlyniad i'r problemau a amlinellir uchod, nid yw rhai gwasanaethau ar draws y byrddau iechyd yn cael eu hystyried yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae'r galw yn uwch na'r capasiti i raddau gwahanol ar draws y byrddau iechyd ac mae rhestrau aros mewn rhai ardaloedd yn hirach nag eraill. Mae cleifion mewn rhai ardaloedd yn aros yn hirach nag eraill am asesiad cataractau a llawdriniaeth. Mae'r byrddau iechyd yn credu y dylai cleifion ar draws de ddwyrain Cymru dderbyn yr un lefel o ofal ac y dylai amseroedd aros fod tua'r un fath, waeth ble mae rhywun yn byw.

### Cynllunio Gwasanaeth y Dyfodol

Mae'r byrddau iechyd wedi cytuno i gydweithio i gyflawni'r nodau canlynol:

- darparu capasiti ychwanegol ar y cyd ar gyfer gwasanaethau cataract
- defnyddio ein hasedau a'n hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon
- cydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r amseroedd aros hir sy'n bodoli ar hyn o bryd a gwneud y rhain yn deg ar draws de ddwyrain Cymru
- lleihau risg clinigol i bob claf

Mae nifer o opsiynau posibl wedi'u cynnig o ran sut y gellid cynyddu gwasanaethau cataract yn y dyfodol er mwyn cyflawni'r nodau hyn i'r eithaf.  Mae'r opsiynau hyn yn ychwanegol at y capasiti presennol yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Athrofaol Cymru, Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty Tywysoges Cymru.

1. **Un Canolfan yn Ne Ddwyrain Cymru**: Cael un ganolfan fwy yn ne ddwyrain Cymru a fydd yn arbenigo mewn cataractau o fewn ysbyty presennol. Byddai hwn yn opsiwn cadarn a chynaliadwy a byddai'n debygol o arwain at y nifer fwyaf o gleifion yn cael eu trin (ac felly'n arwain at y gostyngiad mwyaf o ran amseroedd aros) ond byddai'n golygu y byddai mwy o gleifion yn teithio i un lleoliad ar gyfer gwasanaeth penodol.

2. **Dwy Uned ar y Cyd**: Ymestyn y trefniadau dros dro presennol a chael dwy Uned cataract, un ar hyd coridor yr M4 ac un yn nes at flaenau'r cymoedd. Byddai hyn hefyd yn gwneud y gwasanaeth yn fwy cynaliadwy ac yn arwain at leihad sylweddol mewn amseroedd aros ac yn gyffredinol ni fyddai cleifion angen teithio cymaint ag opsiwn 1.

3. **Cynyddu capasiti ar dri safle**: Pob bwrdd iechyd i gynyddu'r capasiti ar un safle o fewn ffiniau pob bwrdd iechyd. Bydd gan rai safleoedd fwy o allu i gynyddu capasiti nag eraill. Byddai hyn yn lleihau amseroedd aros ond yn llawer arafach a byddai'r sefyllfa'n amrywio ar draws pob bwrdd iechyd.

4. **Allanoli:** trefnu fod cleifion cataractau yn cael eu trin gan ddarparwyr preifat. Gallai hyn fod yn unrhyw le yn Ne Cymru neu mewn safle cyfagos yn Lloegr. Byddai hyn hefyd yn lleihau amseroedd aros (yn arafach) ond byddai'n ddrytach ac yn cynyddu'r amser teithio i gleifion.

5. **Gwneud Dim:** cynnal y gwasanaethau presennol a byddai'r amseroedd aros yn gwaethygu

## Gofyn am Farn y Cyhoedd

Rydym yn ceisio eich barn ar yr opsiynau uchod a'r hyn yr ydych chi'n ei ystyried yw'r materion a'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer gwasanaeth cataractau'r dyfodol.  Yna byddwn yn defnyddio eich barn a'ch adborth i lywio ein casgliadau a'n penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy yn y dyfodol.

Mae'n bwysig i ni fod pawb sydd â diddordeb yn y gwasanaeth cataract yn deall yr opsiynau ac yn cael cyfle i roi adborth llawn. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr a fydd yn dylanwadu ar benderfyniadau terfynol a manylion y gwasanaeth. Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a dderbyniwyd i ddiweddaru ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## Sut y bydd y byrddau iechyd yn gwneud hyn?

Er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu lleisio eu barn, mae’r byrddau iechyd yn cynnal cyfnod ymgysylltu o 12 wythnos ar y cyd sy’n cynnwys y canlynol:

- Arddangos gwybodaeth yn amlwg yn y meysydd gwasanaeth, gan gynnwys posteri ac arddangosiadau
- Darperir gwybodaeth / ffurflenni arolwg i gleifion sy'n mynychu apwyntiadau
- Tudalen wybodaeth bwrpasol ar wefan pob Bwrdd Iechyd, i gynnwys Cwestiynau Cyffredin, mynediad at arolwg cleifion (gyda'r opsiwn o fersiwn papur), pwyntiau cyswllt / rhifau a'u diweddaru wrth i gynlluniau symud yn eu blaen
- Sesiynau gwybodaeth / digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ar-lein
- Negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cyflwyniadau i randdeiliaid
- Cyfarfodydd rheoli ar gyfer rhanddeiliaid mewnol y GIG

Bwriedir cynnal cyfnod ymgysylltu o 12 wythnos o **9.00am ddydd Llun 13ag o Dachwedd 2023 nes 5.00pm ddydd Gwener 2 Chwefror 2024.**

## Arolwg

Rhowch adborth i ni drwy gwblhau'r arolwg ar-lein naill ai trwy'r cod QR neu'r ddolen URL isod:

Cynllunio Gwasanaethau Cataractau'r Dyfodol yn Ne Ddwyrain Cymru

***URL*: [https://forms.office.com/e/s1jTML3Jr6](https://forms.office.com/e/s1jTML3Jr6)**

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth drwy'r gwefannau canlynol:

https://bipab.gig.cymru/CataractauDDdCymru

https://bipcaf.gig.cymru/ein-gwasanaethau/offthalmoleg/cynllunio-gwasanaethau-cataractaur-dyfodol-yn-ne-ddwyrain-cymru/

https://bipctm.gig.cymru/gwasanaethau/cynllunio-gwasanaethau-cataractaur-dyfodol-yn-ne-ddwyrain-cymru/

**Trwy ei sganio, neu dynnu llun o ansawdd da a'i e-bostio atom yn:**
sewales.cataracts@wales.nhs.uk

**Ei phostio i'r cyfeiriad isod:**

YMGYSYLLTU Â NI
Pencadlys corfforaethol
Sant Cadog
Heol y Lodj
Caerllion
NP18 3XQ

Sesiynau Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Bydd pob Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu'n weithredol â phobl hŷn drwy amrywiaeth o grwpiau a digwyddiadau. Yn ogystal â hyn, gall pobl fynychu sesiwn ymgysylltu â'r cyhoedd generig, lle cewch wybod mwy am y cynnig a gofyn unrhyw gwestiynau ar y dyddiadau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Arlein ar Teams** | • 5yp i 6.30yp, Dydd Iau 7fed Rhagfyr 2023<br>• 5yp i 6.30yp, Dydd Mawrth 23ain Ionawr 2024 |

## Cysylltwch â ni

Drwy e-bost gydag unrhyw sylwadau neu os hoffech ymuno ag un o'r sesiynau ar-lein uchod ar **sewales.cataracts@wales.nhs.uk** a byddwn yn trefnu i anfon dolen atoch ar gyfer y sesiwn.

Cyfrannu at unrhyw sgyrsiau drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd

## Beth fydd yn digwydd ar ôl y cyfnod ymgysylltu?

Unwaith y bydd y cyfnod ymgysylltu wedi dod i ben, bydd yr holl ymatebion a safbwyntiau'n cael eu casglu a byddwn yn dod i gasgliad ar yr opsiwn mwyaf priodol ar gyfer gwasanaethau cataract yn y dyfodol. Bydd adroddiad terfynol a chasgliadau yn cael eu paratoi a'u rhannu gyda Llais (y corff gwarchod iechyd newydd sydd wedi disodli Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru). Bydd yr ymateb gan Llais yn ein galluogi i benderfynu a ellir gwneud penderfyniad terfynol ar ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol, neu a oes angen cymryd camau pellach.

Yn amodol ar drafodaethau pellach gyda Llais, efallai y byddwn am ddechrau cyfnod o ymgynghori ffurfiol a phe baem yn gwneud hynny byddwn yn gwahodd eich barn unwaith eto.

## Cyfeiriadau:


Age-related cataracts - NHS (www.nhs.uk)

Cataracts: Causes, Symptoms, and Treatment | Patient

Population estimates by local health boards and age (gov.wales)